

Sicrhau bod ysgolion yn ddiogel yn ystod pandemig y Coronafeirws

Ni all athrawon addysgu ac ni all blant ddysgu'n effeithiol pan fydd risg i'w hiechyd neu eu diogelwch.

Mae pandemig y Coronafeirws wedi cael effaith ddigynsail ar addysg plant, gan amlygu'r ffaith fod angen amodau addysgu a dysgu sy'n ddiogel. Fel arall, bydd llai o athrawon yn addysgu a bydd mwy o ddisgyblion yn cael eu gorfodi i dreulio amser gartref o'r ysgol tra bydden nhw'n hunanynysu.

Mae gan y llywodraethau a'r cyflogwyr ddyletswydd bob amser, yn arbennig yn ystod yr argyfwng hwn, i wneud beth bynnag sy'n angenrheidiol i sicrhau, yn fwy na dim byd arall, bod ysgolion/colegau sy'n aros yn agored i ddisgyblion yn fannau diogel ar gyfer addysgu a dysgu.

Yn ystod yr ymchwydd newydd o drosglwyddiad y Coronafeirws yn y gymuned ehangach, mae NASUWT yn annog pob llywodraeth a phob gweinyddiaeth i gadarnhau trefniadau ychwanegol ar frys er mwyn sicrhau bod ysgolion yn gallu aros ar agor yn ddiogel i blant, pobl ifanc, athrawon a staff cymorth.

Mae NASUWT yn galw ar Lywodraeth Cymru i wneud y canlynol:

1. Dilyn y dystiolaeth wyddonol a'r cyngor gwyddonol. Mae NASUWT yn mynnu bod yn rhaid i Lywodraeth Cymru ystyried y rhybuddion gan wyddonwyr blaenllaw a chyhoeddi manylion llawn y dystiolaeth y mae'n dibynnu arni er mwyn hysbysu ei barn na fydd cadw ysgolion a cholegau'n gwbl agored yn effeithio'n niweidiol ar y disgyblion, y gweithwyr a'u teuluoedd.
2. Cryfhau'r canllawiau a roddir i ysgolion a cholegau ynglŷn â sicrhau bod ganddynt arferion gweithio i gadw'n ddiogel rhag COVID-19. Mae NASUWT yn mynnu bod yn rhaid i Lywodraeth Cymru esbonio'n glir bod cyngor diogelwch yn orfodol ac nid yn opsiynol, a bod rhaid diweddarau'r cyngor presennol i ddarparu'r eglurder sydd ei angen ar ysgolion/colegau, gweithwyr a rhieni.
3. Sicrhau bod ysgolion a cholegau sy'n cyflogi staff yn diweddarau ac yn cyhoeddi eu hasesiadau o'r risgiau i echyd a diogelwch a'u hasesiadau o'r effeithiau ar gydraddoldeb. Mae NASUWT yn mynnu bod Llywodraeth Cymru'n cymryd camau ychwanegol i sicrhau bod cyflogwyr yn cyflawni eu dyletswyddau cyfreithiol yn llawn mewn perthynas â chynllunio asesiadau risg, gan gynnwys ymgynghori â'u gweithwyr a'u hundebau. Dylai Llywodraeth Cymru hefyd sicrhau fod pob ysgol a phob coleg sy'n cyflogi staff yn darparu eu hasesiadau risg i'w gweithwyr, eu dysgwyr a'u rhieni drwy gyhoeddi'r asesiadau risg ar wefan yr ysgol neu'r coleg.
4. Cyhoeddi data wythnosol am achosion positif o COVID-19 ymysg staff a dysgwyr mewn ysgolion/colegau fesul ardal llywodraeth leol, ochr yn ochr ag ystadegau am nifer y dysgwyr a'r staff sy'n hunanynysu fesul cam ysgol/coleg. Mae NASUWT yn mynnu bod Llywodraeth Cymru'n cyhoeddi cyngor sy'n nodi'n eglur bod yn rhaid i ysgolion a cholegau sy'n cyflogi staff roi ystyriaeth i ddata ystadegol eu hardal leol wrth iddynt ddiweddarau eu hasesiadau risg a'u trefnau rheoli eu hunain.
5. Cryfhau'r trefnau arolygu a gorfodi mewn ysgolion a cholegau, gan gynnwys gwneud defnydd mwy cynhwysfawr o hapwiriadau ac ymweliadau gan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch. Mae NASUWT yn mynnu, er mwyn sicrhau hyder y cyhoedd, y dylai trefn arolygu'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch gynnwys ymweld ag ysgolion a cholegau heb roi rhybudd ymlaen llaw, a chyhoeddi data ac adroddiadau'n brydlon am unrhyw rybuddion gorfodi yn ymwneud â COVID-19 sydd wedi'u rhoi i ysgolion a cholegau.

6. Cymryd camau cyflym i ddiogelu iechyd y cyhoedd os cyfyd achos drwy sicrhau bod ysgolion a cholegau'n anfon y disgyblion a'r gweithwyr hynny adref sydd wedi bod mewn cysylltiad â rhywun sydd wedi cael prawf COVID-19 positif, gan gynnwys yr holl weithwyr neu ddisgyblion sydd yn y 'swigen' neu'r grŵp a effeithiwyd. Mae NASUWT yn mynnu bod yn rhaid i'r cyngor y mae Llywodraeth Cymru'n ei roi i ysgolion, yn ogystal â'r cyngor gan dimau iechyd cyhoeddus lleol, roi diogelwch y staff a'r disgyblion yn gyntaf a lleihau'r risg o drosglwyddo'r firws yn ehangach drwy fynnu bod rhaid hunanynysu. Tra bydd yr ysgolion yn parhau'n gwbl agored, mae NASUWT yn annog Llywodraeth Cymru ymhellach i sicrhau bod athrawon a gweithwyr addysg yn cael eu blaenoriaethu ar gyfer profion COVID-19 ac unrhyw frechlynnau yn y dyfodol.
7. Diogelu'r bobl sy'n agored i niwed. Mae NASUWT yn mynnu bod yn rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau gofyniad i aros gartref i'r rheiny sydd â chyflyrau meddygol sy'n bodoli eisoes neu'r rheiny sydd dan y risg uchaf o fynd yn ddifrifol sâl os cânt y Coronafeirws (rheiny sy'n eithriadol o agored i niwed yn glinigol) a bod yn rhaid darparu asesiadau risg unigol i athrawon:
 - sy'n agored i niwed yn glinigol neu'n eithriadol o agored i niwed yn glinigol;
 - sy'n feichiog, yn enwedig y rheiny sydd yn nhri mis olaf eu beichiogrwydd;
 - sydd o gefndir du, Asiaidd neu leiafrifoedd ethnig;
 - sydd ag anabledd;
 - sy'n 60 oed neu'n hŷn.
8. Cryfhau'r canllawiau i fynnu bod trefnau cadw pellter cymdeithasol effeithiol ar waith mewn ysgolion/colegau. Mae NASUWT yn mynnu bod yn rhaid i Lywodraeth Cymru gydnabod hyn: os nad oes ganddynt drefnau cadw pellter cymdeithasol sy'n llym ac effeithiol, mae dyletswydd ar ysgolion a cholegau sy'n cyflogi staff i ddiogelu eu hiechyd a'u diogelwch drwy weithredu trefnau eraill i leihau'r risg o drosglwyddo'r firws, gan gynnwys lleihau maint pob dosbarth, defnyddio trefnau rota a dulliau dysgu cyfunol, a'i gwneud hi'n ofynnol i ddefnyddio masgiau ac amddiffynwyr wyneb mewn ysgolion.
9. Sefydlu cynllun cenedlaethol ar gyfer addysgu o bell a dysgu cyfunol – a ddatblygir mewn partneriaeth ag undebau llafur y gweithlu – sy'n cael ei ariannu'n llawn a'i danategu drwy ddarparu adnoddau TG a chymorth TG effeithiol i bob disgybl a phob aelod o staff. Mae NASUWT yn mynnu bod rhaid cydnabod hyn: mae addysgu o bell yn ddisgwyliad angenrheidiol ar ysgolion a cholegau, ond mae'n ddisgwyliad sy'n ychwanegu'n sylweddol at y gwaith ac yn ddisgwyliad na all athrawon sydd wedi'u gorrwytho'n barod ei weithredu'n effeithiol.
10. Darparu cymorth ariannol ychwanegol sylweddol i ysgolion a cholegau ar frys er mwyn sicrhau diogelwch y staff a'r disgyblion, gan gynnwys ariannu ychwanegol ar gyfer gwaith glanhau, cyfarpar diogelu personol a staff cyflenwi ychwanegol i lenwi'r bwch pan fydd athrawon eraill yn absennol. Mae NASUWT yn mynnu y dylai ysgolion/colegau sy'n wynebu pwysau cyllidebol gael eu blaenoriaethu hefyd ar gyfer cymorth ariannol ychwanegol drwy gydol cyfnod y pandemig.

Mae NASUWT wedi'i ymrwymo i gadw ysgolion a cholegau'n agored, ar yr amod bod trefniadau priodol yn eu lle i gadw'r disgyblion a'r gweithwyr yn ddiogel. Rydym yn dibynnu ar Lywodraeth Cymru a'r cyflogwyr i ddangos eu hymrwymiad i ddiogelwch y plant a'r bobl ifanc a'r rheiny sy'n eu haddysgu.

Bydd NASUWT yn parhau i gymryd camau priodol i ddiogelu iechyd, diogelwch a lles ei aelodau pan fydd ysgolion a cholegau'n methu gwneud hynny.

